

Sylwadau ar argymhellion y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru i Dîm Trawsnewid a Datganoli Cyfiawnder Llywodraeth Cymru

Rwy'n falch o gael y cyfle i gyfrannu fy sylwadau ynglŷn ag argymhellion y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2019. Efallai eich bod yn ymwybodol imi gyflwyno tystiolaeth i'r Comisiwn ym mis Mehefin 2018 (gweler [yma](#)) ac rwy'n falch o nodi bod rhai o'm awgrymiadau a phryderon wedi cael sylw yn argymhellion y Comisiwn.

Sylwadau cyffredinol

Rwy'n croesawu adroddiad y Comisiwn yn fras. Mae'n cynnig, yn fy marn i, bras olwg cynhwysfawr iawn - sydd ei angen yn fawr - o weithrediad y system gyfiawnder yng Nghymru. Rwy'n credu ac yn gobeithio y bydd yn sylfaen gadarn ar gyfer deddfu diwygiadau sydd eu hangen i sicrhau y gall pobl Cymru elwa'n llawn o fynediad dilyffethair i system gyfiawnder o ansawdd uchel.

Datganoli cyfiawnder i Gymru

Prif argymhelliad y Comisiwn yw y dylid datganoli polisi cyfiawnder, gan gynnwys materion llywodraethu ac arolygu'r heddlu, carchardai a phrofiannaeth, i Gymru; gan ei wneud yn unol â'r setliad datganoli yng Nghymru a Gogledd Iwerddon.

Gall datblygiadau o'r fath, pe cânt eu deddfu, gael effaith ar fy nghylch gwaith a gweithrediadau. Yn benodol, byddent, yn fy marn i, yn galw am ailystyried awdurdodaeth dros gwynion gan garcharorion presennol.

Ar hyn o bryd, mae'r cyfrifoldeb dros ymdrin â chwynion o'r fath wedi'i rannu rhwng yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth (PPO), yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd a fy swyddfa. Yn ogystal â hynny, mae mynediad at wasanaeth ombwdsmon annibynnol yn wahanol i'r carcharorion sy'n bwrw dedfryd o garchar yng ngharchardai'r sector cyhoeddus, o'i gymharu â'r rhai sy'n bwrw dedfryd o

garchar yn CEM y Parc Pen-y-bont ar Ogwr, a weithredir yn breifat gan G4S. Amlinellais y trefniadau hyn yn fanylach [yn fy ymateb diweddar](#) i ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i ddarparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol ar yr ystâd carchardai i oedolion (Rhagfyr 2019).

Ar y cyfan, yn fy marn i, mae'r trefniadau presennol yn aneglur a chymhleth ac nid ydynt yn helpu carcharorion yng Nghymru i gael mynediad at gyfiawnder gweinyddol. Byddaf yn awgrymu, os yw'r cyfrifoldeb am garchardai yng Nghymru yn parhau yn San Steffan, mae angen sicrhau bod gan bob carcharor yng Nghymru fynediad cyfartal i gyfiawnder gweinyddol. Yn benodol, awgrymaf:

- dylai PPO gael ei enwi mewn deddfwriaeth fel un o'r cyrff y gallaf gydweithredu â nhw mewn ymchwiliad;
- dylid cynnwys barn broffesiynol / glinigol yng nghylch gwaith PPO ar gyfer gwasanaethau iechyd mewn carchardy/carchardai preifat yng Nghymru (CEM y Parc);
- dylai carcharorion gael mynediad at ganllawiau clir ynglŷn â sut i gwyno ac i bwy y dylen nhw gwyno, ar gyfer y gwahanol agweddau ar wasanaethau carchar (PHSO, PPO a fy swyddfa).

Fodd bynnag, os yw argymhelliad y Comisiwn - y dylai 'materion llywodraethu ac arolygu heddluoedd a'r gwasanaeth carchardai a phrawf, ynghyd ag agweddau eraill ar y seilwaith cyfiawnder' gael eu datganoli i Gymru - yn cael ei ddatblygu, byddaf yn awgrymu:

- dylid ymestyn fy awdurdodaeth i gynnwys cwynion am garchardai, yn ogystal â gwasanaethau iechyd i garcharorion
- dylid ymestyn fy awdurdodaeth i gynnwys carchardai preifat yng Nghymru ar yr un sail ag ar gyfer carchardai eraill (h.y. gan gynnwys barn broffesiynol / glinigol mewn materion sy'n ymwennud â gwasanaeth iechyd).

Argymhellion penodol

<u>Argymhelliad 1</u>	
Dylai'r cyllid ar gyfer cymorth cyfreithiol a'r trydydd sector sy'n	Croesawaf yr argymhelliad hwn Wrth geisio cryfhau a threfnu cefnogaeth i'r sector, mae'n

<p>rhoi cyngor a chynhorthwy gael ei ddwyn ynghyd yn Nghymru i ffurfio un gronfa o dan gyfeiriad strategol corff annibynnol.</p>	<p>mynd i'r afael â'r pryderon a rannais gyda'r Comisiwn ym mis Mehefin 2018.</p>
<p><u>Argymhellion 21 a 23</u></p> <p>Dylai prosesau datrys anghydfodau gerbron llysoedd a thribiwnlysoedd, ffyrdd amgen o ddatrys anghydfodau ac ombwdsmyrn, yn ogystal â datrys anghydfodau mewn perthynas â chyfraith weinyddol, gael eu hyrwyddo a'u cydgysylltu yng Nghymru drwy gorff a gadeirir gan uwch-farnwr.</p> <p>Dylid ystyried dichonolrwydd dull cost isel ac effeithiol o ddatrys anghydfodau sifil drwy ddefnyddio cynllun ombwdsmyrn cynhwysfawr, gan ystyried y llys ar-lein, yng Nghymru.</p>	<p>Yn gyffredinol, croesawaf yr holl ymdrechion i wneud y system gyfiawnder yn fwy syml ac effeithlon. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn cyfeirio at y trefniant a awgrymir dim ond mewn termau cyffredinol iawn a byddwn yn cadw fy marn ynglŷn â'r cynigion nes bod manylion pellach yn dod ar gael.</p> <p>Mae hefyd yn aneglur imi ar hyn o bryd pa gynlluniau ombwdsmon y cyfeirir atynt yn yr argymhelliad. Tra bod y paragraffau blaenorol yn cyfeirio at fy swyddfa, ymddengys bod eu prif canolbwynt ar gyrff megis Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol a'r ombwdsmyrn defnyddwyr. Yn wir, byddaf yn tylw sylw ei bod yn ymddangos bod argymhelliad 23 yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r system gyfiawnder gweinyddol yn Lloegr, sy'n canolbwyntio'n gryf ar arfer yr ombwdsmyrn defnyddwyr. Felly, byddwn yn croesawu eglurhad ar gwmpas yr argymhelliad hwn.</p>
<p><u>Argymhellion 25 a 28</u></p> <p>Dylai pob corff cyhoeddus, ombwdsmon a thribiwnlys arall a sefydlwyd o dan gyfraith Cymru neu gan Lywodraeth Cymru sy'n gwneud penderfyniadau barnwrol neu led-farnwrol, ac nad yw'n cael ei oruchwylio gan</p>	<p>Fel yr uchod, croesawaf yn fras yr holl ymdrechion i wneud y system gyfiawnder yn fwy syml ac effeithlon. Unwaith eto, fodd bynnag, mae'n aneglur imi pa gyrff a fyddai'n dod o fewn cwmpas y trefniant arfaethedig (nodaf gyfeiriad at luosog 'ombwdsmyrn') a beth yw ystyr y term</p>

<p>Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru ar hyn o bryd, gael ei ddwyn o dan oruchwyliaeth y Llywydd.</p> <p>Dylai'r argymhellion ar gyfer cydgysylltu a rhesymoli cyfiawnder sifil [gweler 21 a 23 uchod] hefyd gael eu cymhwyso at gyfiawnder gweinyddol.</p>	<p>penderfyniadau "lled-farnwrol" yn y cyd-destun hwn.</p> <p>Credaf hefyd fod angen eglurhad pellach ar y syniad o 'oruchwyllo' Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Yn sicr, mae dadl fywiog barhaus rhwng llunwyr y polisi, ymchwilwyr academiaidd ac ymarferwyr cyfiawnder gweinyddol ar yr angen i sicrhau cyfatebolrwydd rhwng y sector ombwdsmon a system y tribiwnlysoedd. Serch hynny, hoffwn danlinellu bod rhai gwahaniaethau allweddol rhwng y ddau fath hyn o gorff. Er enghraifft, mae penderfyniadau gan dribiwnlysoedd yn gyfreithiol rwymol. Fodd bynnag, nid yw fy mhenderfyniadau i. Felly, byddaf yn wylidwrus o gymeradwyo unrhyw awgrym y dylid trin y ddau fath o gorff yn yr un ffordd yn union.</p> <p>Hoffwn hefyd danlinellu bod y Llywydd yn cyhoeddi cyfarwyddiadau ymarfer a gweithdrefnol ar gyfer Tribiwnlysoedd Cymru. Fel pwynt o egwyddor, gall cael fy nghyfarwyddo fel hyn danseilio annibyniaeth fy swyddfa . Mae'r broses annibynnol o benodi gan Gynulliad yr Ombwdsmon (y darperir ar ei chyfer yn Neddf yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019) yn cael ei hystyried yn arfer gorau yn rhyngwladol i amddiffyn annibyniaeth sefydliadau ombwdsmon.¹</p> <p>Yn gyffredinol, credaf y byddai unrhyw newidiadau a fyddai'n cael yr effaith o gyflwyno dull rhy gyfreithlon i waith fy swyddfa yn gam yn ôl. Rhaid cofio mai bwriad fy swyddfa yw bod yn ffordd arall o unioni i'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd a bod gennyf</p>
--	---

¹ Gweler er enghraifft [Egwyddorion Fenis](#) a gymeradwywyd gan Sefydliad Rhyngwladol yr Ombwdsmon.

	ddisgresiwn eang wrth asesu cwynion o gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth.
<p><u>Argymhelliad 26</u></p> <p>Dylai fod gan y Llys Gweinyddol y pŵer i ohirio achosion llys tra bydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymchwilio i gŵyn. Dylai fod gan yr Ombwdsmon y pŵer i gyfeirio pwynt cyfreithiol at y Llys.</p>	<p>Croesawaf yr argymhelliad hwn. Mae'n ymateb yn uniongyrchol i'm hawgrymiadau a rannwyd gyda'r Comisiwn ym mis Mehefin 2018. ²</p>
<p><u>Argymhelliad 51</u></p> <p>Dylai Llywodraeth Cymru arwain y gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu i hyrwyddo a chefnogi addysg gyfreithiol gyhoeddus, yn enwedig i blant a phobl ifanc, a'i roi ar waith.</p>	<p>Rwy'n croesawu'r argymhelliad hwn, a atgyfnerthwyd hefyd gan bryder amlwg y Comisiwn ynghylch diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r system gyfiawnder (yn enwedig gan rai grwpiau gwarchoddedig) (gweler, e.e. tt 117-8 a 428-9).</p> <p>Credaf fod llawer o le i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd, nid yn unig o'r system gyfreithiol yn gyffredinol, ond hefyd o gyfiawnder gweinyddol a'r gwasanaeth ombwdsmon yn fwy penodol. Yn wir, dadleuaf y dylem anelu at ddim llai na thrin gweinyddiaeth dda fel hawl ddynol sylfaenol ³ a'i hyrwyddo yn unol â hynny.</p> <p>Awgrymaf y gellir bwrw ymlaen â'r argymhelliad hwn yn ffrwythlon o dan y cwricwlwm newydd i Gymru a'r Meysydd Dysgu newydd sydd o'i fewn. Fodd bynnag, byddwn yn croesawu trafodaethau pellach gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill ynglŷn ag unrhyw brosiectau hyrwyddo ac</p>

² Ystyriwyd y mater [hwn gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad ym mis Mai 2015](#).

³ Mae Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE eisoes yn mabwysiadu'r dull hwn (gweler [Erthygl 41](#)).

	addysgol eraill y gellid ymgymryd â nhw i wella mynediad poblogaeth Cymru at gyfiawnder.
--	--

Sylwadau i gloi

Hyderaf y bydd fy sylwadau yn ddefnyddiol i chi. Os dymunwch drafod unrhyw un o'r pwyntiau a wneuthum, mae croeso i chi gysylltu ag Ania Rolewska, Pennaeth Polisi (ania.rolewska@ombudsman.wales).



Nick Bennett

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Chwefror 2020
